9

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg HYDREF 2021

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 21ain MEDI 2021 YN GYWIR.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng W R Parry, E W Roberts, E D Owen.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. FPL/2021/286. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu:-
   Llwyn Onn, Tynlon.
   Caniatad.
   Derbyn. Ond ni chafwydd cais gwreiddiol. Y Clerc i edrych i fewn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Rheolwr Polisi Cynllunio: Rebeca Jones.
   Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon.
   Adroddiad Adolygu Drafft - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon.
   Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu (Y Cynllun Cyfredol) ar 31ain Gorffennnaf 2017. Gan fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers mabwysiadu, mae yn ofynnol paratoi cynllun diwygiedig.
   Pwysleisir nad diben yr adroddiad adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cae eu gwneud i`r Cynllun.
   Yngynghori Cyhoeddus (6 wythnos) 5ed Tachwedd hyd 20ed Rhagfyr 2021.
   Adroddiad adolygu ar gael i`w lawrlwytho.:-
   www.gwynedd.llyw.cymru/cdlldiwygiedig
   www.ynysmon.gov.uk/cdlldiwygiedig
   Copi caled o`r ddogfen. Cyswllt Mon, Swyddfeydd y Cyngor Llangefni.
   Derbyn y wybodaeth gyda ymateb gan y Cynghorwyr yn uniongyrchol os oes sylw.

4. Swyddog Polisi. Rhian Wyn Jones.
   FW: Datganiad: Gweithdai sgiliau Cefn Gwlad yn helpu i ddiogelu`r tirlun.
   Cyfres o weithiau walio (llwyddiant ysgubol gan bawb a fynychodd) mewn partneriaeth A K J Stone Walling ac eraill gan gyfoeth naturiol Cymru. Byd sgiliau megis plygu gwrych, gwneud Siarcol, Prysgoedio a mwy.
   Ceir mwy o wybodaeth :-
   https:/www.ynysmon.gov.uk/Trigolion/Cefn-gwlad/Digwyddiadau-a-gweithgareddau-cefn-gwlad.aspx

Derbyn y wybodaeth, gobeithio bydd mwy yn cymryd sylw.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Cyfoeth Naturiol Cymru. Emyr Humphreys.
   Coedwigoedd Cefni, Pentraeth a Coed Cadw / Coed Nant (Biwmares)
   Ymgysylltu a Rhanddeiliaid ynglyn a chynllun adnoddau coedwigoedd.
   Ymgynghori. cyfoeddnaturiol.cymru/forest-planning-cynllunio-coedwig/cynllun-adnoddau-coedwig-cefni-pentraeth-coed-nant.
   Os oes ymateb neu unrhyw gwestiynau a`r cynigion drafft cysylltu erbyn 8ed Rhagfyr 2021.
   a. e bost uningyrchol:frp@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.
   b. Defnyddiwch "Canolfan Ymgynghori" CNC i adael eich adborth:
      https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/
      Ar gael rhwng Tachwedd 10ed tan Rhagfyr 8ed 2021.
   c. Ysgrifennu at:-
      Emyr Humphries, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DW.
   Cyng J E Lewis yn dweud fod Coedwig Cefni o ddiddordeb i`r Cyngor ond mae dros y ffin yn Cyngor Llanddyfnan.
   Efallai y ffordd orau os oes sylw ydyw ateb fel unigolyn.

6. Comisiwn Ffiniau i Gymru.
   Canllaw i`r gwrandawiadau cyhoeddus. (11ed Ionawr tan 21ain Chwefror.)
   5 lleoliad gosaf i ni y Ganolfan Rheoli, Bangor (19ed Ionawr 2022).
   Derbyn y wybodaeth a`i gadw mewn golwg.

7. Ymgynghoriad ar yr ymchwiliad i ail gartrefi.
   Bydd yr ymgynghoriad yn Para tan 14ain Ionawr 2022.
   Mae llythyr ynghlwm ac ynddo wybodaeth fanylach a chanllawiau ar gyfer cyflwyno ymateb.
   https://busnes.senedd.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=434
   Mae treth wedi mwy na dyblu ar ail dai ond mae gormod o fylchau. Mae rhaid cau rhain.
   Mae rhaid gwneud rhywbeth i rhoi diwedd ar ail gartrefi.
   Sut gallwn fel cenedl nadu neb brynu ail gartref, ond mae posib nadu pawb ail enwi tai am bod nhw yn methu enhangu yr enw gwreiddiol.
   Maen`t yn difedda Cymunedau Lleol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol.
   Maen`t hefyd yn gyfrifol am godi prisiau tai ac felly yn eu gwneud yn anfforddiadwy i bobl lleol.
   Ni ddylid caniatau prynu mwy o dai ar gyfer y perwyl hwn ac fe ddylid codi trethi yn sylweddol iawn ar y tai sydd eisioes yn cael yn cael ei defnyddio fel ail gartrefi.

8. *Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.*

9. Cyng H Glyn Owen.
   Cynnig swm o arian i Bwyllgor y Cae Chwarae.
   Ar yr amod:-
   Y Cyngor yn cael enwau a cyfeiriad Pwyllgor Cae Chwarae.
   Os ydi y Cynghorwyr yn cytuno eraill ddim yn cytuno a`r cynnig mae hynnu yn iawn.
   Ond os ydynt yn cytuno:-
   Yr amod arall yw:-
   Ar ol i swm o arian gael ei dalu i Bwyllgor y Cae Chwarae.
   Ni fydd un geiniog arall yn mynd o bwrs y Cyngor Cymdeithas i goffrau y Cae Chwarae.
   Ei deimlad ydyw fod y Cae Chwarae ddigon cryf i redeg a`i ariannu.
   Yr unig beth r'wyf yn ei gynnig fod y Cyngor yn talu y fes.

Cyng E Williams yn angytuno`n llwyr gyda cynnig Cyng H G Owen.
Dylai`r arian fynd i`r Pwyllgor yn ddi-amod fel yr arian sydd wedi cael ei roddi gan y Cyngor Cymdeithas i unrhyw Fudiad / Cymdeithas / Bwyllgor arall sydd wedi gwneud ceisiadau.
Ni ddylid atal arian yn y dyfodol i unrhyw Fudiad - yn hytrach fe ddylid trafod pob cais newydd a dderbynir a phenderfynu ar y pryd os ydym yn rhoi arian iddynt. Ni ddylid gwneud eithrad o Bwyllgor y Cae Chwarae gan ofyn iddynt am restr o`u haelodau - a ydym yn bwriadu gofyn i bob Mudiad sydd yn gwneud cais am arian i gyflwyno rhestr o aelodau eu Pwyllgor a chopi o`u Cyfansoddiad.

Pasiwyd i dderbyn Cynnig Cyng H G Owen. Cynnig J Evans eilo Cyng R M Roberts.
Cefnogaeth (4) Gwrthwynebiad (1) Ymatal (1) Dim ymateb (3) Ni ofynwyd am recordio y bleidlais.

10. Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol..
A oes ganddoch rhywun mewn golwg a diddordeb.
Mae pedwar enw hefo diddordeb Liam Jones, Jamie Cunliffe, Wayne Heighton, Nigel Williams.
Cafwyd enw Paul Owen gan Cyng E Williams ond nid oedd yn gwybod os oes diddordeb.
Beth sydd yn ei dychryn ydyw clirio y glaswellt oddi ar y safle.
Mae un amcangyfrif wedi dod i law. Cawn weld mis Ionawr.

RHODDION
11. Ambiwlans Awyr Cymru. Gadael hyd Mawrth 2022.

PLWYFOL.
12. Dim.

MATERION ARIANNOL:
13. Cyfrif Rhedegol £10,070.00
Mynwent Gymunedol £5,490.00. £100.00 (Carreg Gareth a Gladys Owen)

TALIADAU:
14. Clerc £250.00.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.